

Galwad am werthuswyr allanol

Cefndir

Mae Canolfan Gerdd William Mathias (CGWM) wedi derbyn nawdd gan Music Challenge Fund mudiad Spirit 2012 (www.spiritof2012.org.uk) er mwyn rhedeg prosiect 'Canfod y Gân/Discover the Song' dros dair blynedd. Bydd y prosiect yn dod ag unigolion sydd ag anableddau ac unigolion sydd heb anableddau ynghyd i gymryd rhan cyfartal mewn gweithgareddau cerddoriaeth cyson gyda'r nod o wella iechyd meddwl a llesiant.

Bydd CGWM yn gweithio mewn partneriaeth gyda thîm Anableddau Dysgu Cyngor Gwynedd a fydd yn cyfeirio unigolion gyda anableddau dysgu i'r prosiect.

Rydym eisiau derbyn ceisiadau gan werthuswyr allanol i weithio gyda ni drwy gydol y prosiect er mwyn :

- casglu tystiolaeth o effaith y prosiect,
- cynorthwyo wrth baratoi adroddiadau i'r noddwr.
- cynorthwyo i rannu ein dysgu a'n canfyddiadau.

Gweledigaeth a nodau

Mae gan bawb gân i'w chanu ac mae pawb yn haeddu'r cyfle i ddarganfod a rhannu eu cân.

O ddiwedd mis Ebrill bydd tri grwp yn cyfarfod bob pythefnos yn Harlech, Pwllheli a Chaernarfon. Pob chwe mis, bydd y grwpiau yn perfformio'n gyhoeddus unai yn eu cymuned neu mewn gwyliau cerddoriaeth lleol a/neu'n genedlaethol gyda'r nod o newid ymagweddau tuag at anableddau.

Dymunwn werthuso effaith y prosiect ar yr amcanion isod :

- Llesiant
- Iechyd meddwl
- Ymagwedd tuag at anabledd
- Cynyddu'r gronfa o gerddorion sy'n cynnal sesiynau cerdd integredig yng Ngogledd Cymru

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am y canlynol :

- Datblygu a gweithredu eu methodoleg eu hun, wedi ei gymeradwyo gan CGWM a Spirit 2012.
- Cynhyrchu adnoddau a deunyddiau perthnasol sydd ei angen ar gyfer y broses werthuso e.e holiaduron ayyb.
- Cyfrannu data, gwybodaeth ac adborth i adroddiadau fesul chwe mis, ac adroddiadau blynyddol a ddarperir i Spirit 2012, drwy gydol y prosiect.

- Cynhyrchu adroddiad adolygol cynhwysfawr sy'n mesur llwyddiant y prosiect i ymgynhyrchu â'r amcanion gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol wedi ei gyflwyno mewn ffordd sy'n rhannu'r amcanion gyda'r cyfranogwyr, CGWM a Spirit of 2012. Dymunwn drafod fformat yr adroddiadau gyda'r ymgeiswyr llwyddiannus gan ein bod yn eiddgar i dderbyn gwir ddealltwriaeth o effaith y prosiect, ond ar yr un pryd fod yn derbyn adroddiadau darllendwy a chryno.
- Cefnogi gwelliant parhaus yn rhediad y prosiect drwy rannu data a gwybodaeth, gan sicrhau ansawdd.
- Defnyddio Mesurau Llesiant Swyddfa Ystadegau Gwladol wrth gasglu data ac adborth.

Cwestiynau allweddol y gwerthusiad

Llesiant

I ba raddau mae'r unigolyn yn teimlo'n fwy hyderus drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddorol?

Ydy'r unigolyn yn teimlo'n hapusach ers cychwyn y prosiect?

Iechyd meddwl

Ydy iechyd meddwl y cyfranogwyr wedi gwella drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd cerddorol rheolaidd?

Ymagwedd at anabledd

Ydy ymagwedd y cyfranogwyr o'r hyn y mae unigolion gyda anableddau yn gallu cyflawni, a'u cyfraniad i gymdeithas, wedi newid?

Effaith ar diwtoriaid cerdd

Ydy'r tiwtoriaid yn fwy hyderus ac wedi eu sgilio'n briodol i ddarparu sesiynau cerddoriaeth integredig i gyfranogwyr gyda anableddau dysgu a chyfranogwyr heb anableddau dysgu?

Dymunwn werthuso effaith y prosiect ar daclo unigrwydd. Disgwylwn i'r ymgeisydd llwyddiannus gynnig arweiniad ar y mater.

Sgiliau hanfodol i gefnogi'r gwaith

- Y gallu i gynnal cyfweiliadau a pharatoi holiaduron dwyieithog (Cymraeg a Saesneg)
- Defnydd o'r Mesur Llesiant a gynhyrchir gan Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Profiad o werthuso a chasglu tystiolaeth gan oeolion gyda anableddau dysgu neu unigolion sy'n ddieiriol.

Amserlen penodi a'r prosiect

Cyhoeddi tender	7fed Chwefror, 2019
Dyddiad Cau, Cyflwyno cais	11eg Mawrth 2019, 9am
Penodi	13eg Mawrth 2019
Amlinellu fframwaith a dulliau gwerthuso	31ain Mawrth 2019
Adroddiad o waelodlin	31ain Mai 2019
Bwydo i Adroddiad blwyddyn gyntaf Spirit 2012	30ain Tachwedd 2019
Bwydo i adroddiad chwe misol Spirit 2012	31ain Mai 2020
Bwydo i Adroddiad yr ail flwyddyn	30ain Tachwedd 2020
Bwydo i adroddiad chwe misol Spirit 2012	31ain Mai 2021
Adroddiad terfynol	30ain Tachwedd 2021

Ffioedd

Mae ffi o £14,000 ar gael i'r broses werthuso, sy'n cynnwys yr holl gostau a TAW.

Dyma linc i Fodel Rhesymu (Logic Model) Spirit 2012 : [logic model](#)

Asesir yr ymgeiswyr yn erbyn meini prawf canlynol :

- Eglurder cyfathrebu
- Profiad o ymchwilio i themâu tebyg
- Methodoleg clir
- Chwifrydedd deallusol ac ymrwymiad i ddarparu mewnwelediad pwrpasol
- Gwerth am arian

Sut i ymgeisio

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio, cyflwynwch eich cynnig gan amlinellu yn fras :

- eich profiadau perthnasol,
- eich methodoleg/dulliau gwerthuso
- dau eirida
- cyllideb

Gyrrwch eich cynnig (erbyn 9am, 11 Mawrth 2019) at Mared Gwyn-Jones – mared@cgwm.org.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech sgwrs anffurfiol, cysylltwch â Meinir Llwyd Roberts ar 01286 685230 / 07967274617 / meinir@cgwm.org.uk